

***Adroddiad
Blynyddol
Y
Llywodraethwyr
i Rien***



2015 / 2016



Adroddiad y Llywodraethwyr

Annwyl Riant / Warcheidwad

Yn dilyn blwyddyn brysur arall ym mywyd yr ysgol, daeth amser eto i edrych yn ôl ar y flwyddyn a fu. Braff yw cael cyfle i gofnodi rhai sylwadau ar ddiwedd fy nghyfnod fel Cadeirydd, ac yn wir ar ddiwedd fy nhymor fel rhiant-lywodraethwr.

Ymysg y digwyddiadau pwysig, mae bywyd bob dydd yr ysgol, y dysgu a'r addysgu, y cefnogi a'r herio yn parhau. Mae gwaith tîm o safon uchel ar draws yr ysgol yn cyfrannu at addysg gyfan ein plant. Mae'r llywodraethwyr yn falch iawn o gael y cyfle i gydweithio gyda staff yr Ysgol o dan arweiniad medrus y Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain.

Diolch yn fawr iawn i bob aelod o staff, beth bynnag eu rôl, beth bynnag eu harbenigedd, am flwyddyn arall o waith caled ac ymroddedig. Hoffwn ddatgan gwerthfawrogiad y llywodraethwyr o'r staff a adawodd am swyddi eraill neu a ymddeolodd. Pob hwyl iddynt. Croeso mawr i'r aelodau o staff a ymunodd â'r ysgol yn ystod y flwyddyn – gobeithio y byddant yn mwynhau eu swyddi ac yn ymgartrefu'n dda.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion am eu llwyddiannau academaidd a'u llwyddiannau ar faes chwaraeon ac ar lwyfan cenedlaethol eleni eto. Diolch yn fawr i chi, rhieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth i'ch plant, am roi pob cyfle iddynt, ac am sicrhau eu bod yn y lle iawn ar yr amser iawn, hyd yn oed am 5 o'r gloch y bore, i gymryd rhan yng ngweithgareddau amrywiol yr ysgol. Mae'r ysgol yn sicr yn rhoi gwreiddiau ac adenydd i'n plant.

Ar ran y llywodraethwyr, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon sydd yn cynnal gweithgareddau i gymdeithasu ac i godi arian ar gyfer y ein plant. Cyfrannir yn flynyddol at gostau rhedeg y bws mini.

Cafwyd ymweliad gan Estyn ym mis Tachwedd 2015. Adroddodd Estyn bod yr ysgol yn perfformio yn dda gyda rhagolygon gwella da. Roedd y maes 'profiadau dysgu' yn 'rhagorol'. Paratowyd cynllun gweithredu yn dilyn yr ymweliad ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.

Mae Ysgol Bro Myrddin yn Ysgol Gyfun Gymraeg erbyn hyn - yr Ysgol Gyfun Gymraeg gyntaf yn Sir Gâr. Yn dilyn proses o ymgynghori, cymeradwyodd y Cyngor Sir y cynnig ym mis Gorffennaf gan ddod i rym ym mis Medi. Diolch yn fawr i bawb fuodd ynghlwm gyda'r gwaith, o dan arweiniad medrus y Pennaeth.

Ar ddiwedd gwyliau'r haf, daeth newyddion trasig i'r ysgol gyda marwolaeth sydyn William Edward Thomas, disgybl 16 oed. Ar ran y llywodraethwyr, rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda'i deulu a'i ffrindiau.

Mae croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth neu Gadeirydd y Corff Llywodraethol os hoffech chi drafod rhywbeth yn benodol neu i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

Lynwen Roberts

Cadeirydd y Corff Llywodraethol



Adroddiad Y Pennaeth

© Tempest

Dyma flwyddyn academaidd arbennig o lwyddiannus eleni eto. Mae canlyniadau arholiadau cryf iawn wedi ein gweld yn cyrraedd y brig o ran ysgolion y Sir, y teulu a Chymru. Hoffwn ddiolch yn arbennig i ddisgyblion, rhieni a staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad. Mae'r athrawon a'r myfyrwyr wedi parhau i weithio'n galed er mwyn cynnal y safonau uchel a bennwyd yn Ysgol Bro Myrddin dros y ddegawd ddiwethaf. Bellach rydym yn un o 'ysgolion arloesi' newydd Cymru o dan gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ac rydym hefyd ar fin cychwyn fel ysgol arloesi greadigol trwy gydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru. Rydym hefyd yn rhan o gynllun cyffrous Polli:Nation er mwyn gwella amgylchedd yr ysgol ac yn ysgol arweiniol yn y cynllun Rhaglen Dysgu Byd Eang. Yn ychwanegol mae'r ysgol bellach wedi ei datblygu yn ganolfan i'r Rhaglen Athrawon Rhagorol Olevi a'r Rhaglen Gwella Athrawon.

Bu llawer o lwyddiannau eraill hefyd a gofnodwyd ar wefan yr ysgol ac yn ein papurau lleol a thrwy Twitter a Facebook. Byddwch hefyd yn gweld rhestr o lwyddiannau eraill fel rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn falch o allu adrodd ar ystod eang o gyflawniadau a sicrhawyd gan ein disgyblion a'n staff talentog.

Llynedd roeddwn yn edrych at y dyfodol gyda chyffro wrth i'r ymgynghoriad o ran newid categori iaith yr ysgol o gategori 2A i gategori CC i fynd yn ei flaen. Bellach mae'r ymgynghoriad wedi dod i ben a'r ysgol bellach yn ysgol benodedig Gymraeg, yr ysgol benodedig Gymraeg gyntaf yn Sir Gâr.

Ein nod yn flynyddol yw cynnal a chodi safonau uchel yr ysgol gan gynnig dewis o gwricwlwm eang a phrofiadau allgyrsiol helaeth. I sicrhau hyn mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn agored ac yn onest am bob agwedd ar wella'r ysgol ac yn ein barn ni, mae barn disgyblion a rhieni yn rhan annatod o hynny. Rydym yn datblygu Llais y Disgybl ymhob agwedd o fywyd ysgol ac yn gweithredu ar y canlyniadau. Rydym yn cynllunio i gryfhau Llais y Cyngor Ysgol, y cynghorau blwyddyn a'r Cyngor Chwaraeon gan ein bod yn awyddus i sicrhau ein bod yn ymwybodol o farn pawb sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol. Gofynnwn i chi, felly, i ddefnyddio'r holiadur a ddsberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad.

Mae cyfathrebu'n allweddol i ni ac rydym yn diweddarau ein gwefan yn ddyddiol i sicrhau defnyddioldeb. Bellach mae gennym wefan newydd mwy hylaw sy'n rhoi holl fanylion diweddar yr ysgol. Cyfeiriad gwefan newydd yr ysgol yw: yggbm.org. Mae gennym hefyd ap newydd sbon sy'n bosibl ei ddefnyddio ar unrhyw ffôn glyfar.

Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, yng nghanol mis Awst, fe ddaeth ergyd ofnadwy i'r ysgol gyda marwolaeth un o'n disgyblion William Thomas o Langyndeyrn. Nodwyd y canlynol gennyf ar ein gwefan: *"Heb unrhyw amheuaeth, gwybod bod Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin wedi colli aelod talentog a phoblogaidd o gymuned yr ysgol mewn amgylchiadau mor drist yw'r digwyddiad mwyaf torcalonnus yr wyf i, pennaeth yr ysgol, y staff a'r plant wedi gorfod ei wynebu. Roedd Wil yn unigolyn poblogaidd, hoffus ac uchel ei barch ac mae ystod y golled a deimlir gan staff a disgyblion yn amhosibl i'w gyfleu mewn geiriau. Mae ein meddyliau gyda theulu a ffrindiau Wil yn ystod y cyfnod trist hwn ac fel ysgol, rydym yma i gynnig pob cymorth ac arweiniad posibl."*

I gloi'r adroddiad hoffem ddiolch yn arbennig i'r Llywodraethwyr sy'n rhoi yn ddi-flino o'u hamser i fynychu pwyllgorau amrywiol yn rheolaidd er mwyn trafod polisiau a gweithgareddau'r ysgol. Diolch hefyd i'r holl staff ac i chithau'r rhieni.

Dr Llinos Jones



Cynnydd ar argymhellion Estyn yn Adroddiad Arolygu 2015

A1. Codi safonau cyflawniad y bechgyn

Mae codi safonau cyflawniad y bechgyn yn un o flaenoriaethau ein Cynllun Datblygu Ysgol 2016-17. Eisoed mae'r ysgol wedi mynd i'r afael a chodi y safonau a gwelwyd cynnydd o 7% yn safonau CA3 y bechgyn yn 2016 o'i gymharu a 2015. Gwelwyd cynnydd hefyd ar ddiwedd CA4 o 4% yn L2+ a'r bwlch rhwng y merched a'r bechgyn wedi lleihau'n sylweddol. Mae gwaith i'w wneud o hyd er mwyn gweld cynnydd pellach.

A2. Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol a rhannu'r arferion gorau

Mae Cynllun Datblygu'r ysgol ar gyfer 2016-17 yn blaenoriaethu'r argymhelliad hwn ac eisoed mae cynlluniau manwl ar y gweill. Rydym eisoed wedi sefydlu gweithgor dysgu ac addysgu ac mae'r ysgol bellach wedi ei datblygu yn ganolfan i'r Rhaglen Athrawon Rhagorol Olevi a'r Rhaglen Gwella Athrawon. Rydym hefyd wedi sefydlu gweithgor Addysgu a Dysgu sydd wedi datblygu cynlluniau gweithredu manwl sydd eisoed ar y gweill.

A3. Datblygu'r defnydd a dealltwriaeth o ddata ymysg rheolwyr a llywodraethwyr

Eto mae'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a thargedau pendant wedi eu gosod. Rydym yn paratoi dogfen ddata adolygol yn cymharu perfformiad yr ysgol gyferbyn deilliannau sydd wedi ei fodelu dros y pedair blynedd diwethaf a'i ychwanegu at yr adroddiad data yn 2016. Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant priodol, ychwanegol i'r rheolwyr a'r llywodraethwyr.

A4. Miniogi'r cysylltiad rhwng prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

Mae'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau'r Cynllun Datblygu ac eisoed mae Cynllun Datblygu Ysgol Ol-Arolwg wedi ei ffurfio a Chynllun Datblygu Adran newydd.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Aelodau y Corff Llywodraethol 2015-16

Cadeirydd : Mrs Lynwen Roberts

Is-Gadeirydd : Cynghorydd Gareth Jones

Clerc : Miss Siân Thomas, Clerc y Llywodraethwyr, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin,
swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk

Mae 20 o aelodau ar y Corff Llywodraethol :

- Pennaeth
- 6 Rhiant Llywodraethwr
- 5 Cynrychiolydd yr AALI
- 2 Gynrychiolydd Athrawon
- 1 Cynrychiolydd Staff Cynorthwyol
- 5 Cynrychiolydd Cyfetholedig sy'n aelodau cymunedol

Rhieni Llywodraethwyr

(cyfnod yn dod i ben)

Mrs Lynwen Roberts (Is-gadeirydd)	(09.11.16)
Mrs Marlene Jones	(09.11.16)
Mr Hywel Davies	(08.11.16)
Parch Beti Wyn James	(28.10.18)
Mrs Eleri Beynon	(02.12.16)
Mr Nigel Cooke	(04.10.19)

Llywodraethwyr yr AALI

(cyfnod yn dod i ben)

Cyng Peter Hughes-Griffiths	(23.09.16)
Cyng Mair Stephens	(23.09.16)
Mr Arwel Lloyd (cadeirydd)	(25.03.17)
Mr Alun Charles	(16.03.19)
Cyng Gareth O. Jones	(06.09.19)

Cynrychiolwyr Athrawon

(cyfnod yn dod i ben)

Mr Aled Williams	(31.08.17)
Dr Huw Griffiths	(23.09.16)

Cynrychiolwr Staff Cynorthwyol

(cyfnod yn dod i ben)

Mrs Meinir McLellan	(24.05.19)
---------------------	------------

Llywodraethwyr cymunedol

(cyfnod yn dod i ben)

Parch Tom T. Defis	(13.01.17)
Mrs Glenys Thomas	(13.01.17)
Mr Elfed Davies	(13.01.17)
Mrs Anne Loughran	(13.01.17)
Mrs Luned Thomas	(13.03.17)



Blaenoriaeth strategol YBM	Camau gweithredu yn y Cynllun Datblygu Ysgol
Codi safonau (gyda ffocws arbennig ar gyflawniad y bechgyn)	<ul style="list-style-type: none"> • Creu a rhannu dogfen 'Strategaethau adrannol i hybu perfformiad bechgyn' • Datblygu gwaith y gweithgor tangyflawni bechgyn • Ymweliad ERW 2 i ganolbwyntio ar dangyflawni bechgyn. Adrodd nôl ar y canfyddiadau mewn HMS ysgol gyfan • Adolygiadau adrannol o Fedi 2016 i ganolbwyntio yn benodol ar brofiadau bechgyn ac i edrych ar y ffordd y mae'r ddogfen strategaethau yn cael ei defnyddio i daclo tangyflawni bechgyn • Datblygu strategaethau i gau'r bwlch ac i godi safonau yn CA3 a CA4 (ysgrifennu yn benodol) trwy ymweld ag ysgolion er mwyn arsylwi arfer dda ysgolion eraill. Rhannu'r arferion ar draws yr adrannau • Datblygu rôl y rhieni yn y broses o godi safonau bechgyn gan adrodd yn fwy rheolaidd i rieni ar gynnydd disgyblion trwy adroddiadau interim • Datblygu pecyn rhiant/disgybl/ysgol i gadw golwg ar gynnydd
Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu	<ul style="list-style-type: none"> • Creu gweithgor Addysgu a Dysgu i ddatblygu addysgeg o fewn yr ysgol • Gwella ansawdd y cwestiynu o fewn yr ystafell ddosbath • Sicrhau disgygliadau uchel o ddisgyblion ar draws gwersi a darparu cyfleoedd i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog • Datblygu strategaethau gwahaniaethu ar draws gwersi gallu cymysg • Adnabod a gwirio camau cynnydd disgyblion o fewn ac ar draws gwersi • Datblygu yr ysgol yn ganolfan i'r Rhaglen Athrawon Rhagorol Olevi a'r Rhaglen Gwella Athrawon • Datblygu tîm o athrawon i rannu arfer dda • Defnyddio athrawon y Rhaglen Athrawon Rhagorol i gryfhau ansawdd yr addysgu yn yr adrannau a nodwyd yn yr hunanarfarniad • Hunanarfarnu adrannau gan ddilyn y Calendr Hunanarfarnu 2016-19
Datblygu'r defnydd dealltwriaeth o ddata	<ul style="list-style-type: none"> • Creu dogfen ddata adolygol yn cymharu perfformiad yr ysgol gyferbyn deilliannau sydd wedi ei fodelu dros y pedair blynedd diwethaf a'i ychwanegu at yr adroddiad data yn 2016 • Cynnig hyfforddiant priodol, ychwanegol ar ddata i'r Corff Llywodraethol a'r rheolwyr canol • Sicrhau bod pob llywodraethwr wedi cael hyfforddiant Sirol ar ddata • Datblygu gwybodaeth y rheolwyr canol o ddata trwy addasu dogfennaeth i roi mwy o bwyslais ar ddadansoddi perfformiad yn erbyn cyflawniad blaenorol a safle'r ysgol o fewn y meincnodau prydau ysgol am ddim



<p>Miniogi'r cysylltiad rhwng prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Creu Cynllun Datblygu Ysgol Ôl-Arolwg newydd miniocach ac ail-greu templed newydd i'r Cynllun Datblygu Adran i gyd-fynd gyda'r CDY • Sicrhau bod hunanarfarniad yr ysgol yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r CDY a'r CDA • Trefnu cyfarfodydd arweinwyr canol rheolaidd a'u hamserlenni
<p>Ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'r ysgol fel ysgol arloesol o ran y cwricwlwm trwy gydweithio gyda LICC ac ERW ar gynlluniau moderneiddio • Datblygu cynlluniau yr ysgol greadigol arweiniol er mwyn datblygu cynlluniau at gyfer y Celfyddydau Mynegiannol. • Dechrau ar y daith ddigidol drwy benodi arbenigwr ar gyfer prosiect 'gwaith a gorffen' er mwyn mapio'r fframwaith ddigidol newydd • Datblygu arweinwyr digidol • Ymestyn argaeledd offer digidol • Datblygu gwaith y gweithgor Llythrennedd gan ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ysgrifennu ar draws yr ysgol (yn enwedig bechgyn) • Datblygu'r Fagloriaeth o fewn yr ysgol trwy greu calendr penodol ar gyfer y Fagloriaeth Genedlaethol ac Uwch • Datblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm trwy gydweithio gydag adrannau i'w cyfarwyddo'n bellach am y ffordd i gyflwyno rhifedd o fewn y gwersi
<p>Datblygu amgylchedd yr ysgol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu cynllun i gael Llain 3G ar dir yr ysgol • Datblygu amgylchedd yr ysgol trwy gydweithio gyda Polli:Nation i wneud arolwg safle a datblygu'r ardd a'r ardal gyfagos • Cydweithio gyda'r Adran Wyddoniaeth i greu amgylchedd ddysgu allanol

Trefn y dydd ym Mro Myrddin

Trefnir yr amserlen ar batrwm o 5 gwrs y dydd dros gyfnod o ddeg diwrnod. Isod gweler amseroedd y sesiynau.

8.55-9.05	Cofrestru		10.20-10.35	Egwyl		12.35-1.35	Cinio
9.05-9.20	Gwasanaeth		10.35-11.35	Gwers 2		1.35-2.35	Gwers 4
9.20-10.20	Gwers 1		11.35-12.35	Gwers 3		2.35-3.35	Gwers 5



Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2016-17

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd	Dyddiau
		Dechrau	Diwedd		
Hydref 2016	5 Medi	24 Hydref	28 Hydref	16 Rhagfyr	71
Gwanwyn 2017	4 Ionawr	20 Chwefror	24 Chwefror	7 Ebrill	54
Haf 2017	25 Ebrill	29 Mai	2 Mehefin	21 Gorffennaf	65
Dyddiau HMS Penodol – Dydd Iau Medi 1, Dydd Llun Ionawr 3					2
Dyddiau HMS ar ddisgresiwn yr ysgol – Dydd Gwener, Medi 2; Dydd Gwener, Hydref 21; Dydd Llun, 24 Ebrill.					3
Cyfanswm					195

Penodiadau staff newydd ar gyfer Medi 2016:

Miss Bethan Williams – Athrawes yn yr Adran Hanes.

Mr Emyr Rees – Athro yn yr Adran Wyddoniaeth.

Mrs Rhian Rees-Thorne – Athrawes yn yr Adran Gymraeg.

Cysylltiadau â'r gymuned

Defnyddir yr ysgol yn rheolaidd gan glybiau a chymdeithasau allanol. Rydym wedi cydweithio'n agos gyda'r Urdd a'n swyddog 5x60 er mwyn darparu rhaglenni darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol.

Mae gennym hefyd gysylltiadau agos gyda'n Heddwes Cyswllt Ysgol, PC Cath Williams. Mae hi wedi ein cefnogi yn dda iawn yn ein rhaglen ABCh ac wedi cydweithio'n agos iawn gyda'n Penaethiaid Blwyddyn a'r Uwch Dîm Arwain. Mae ei chynghor parod a'i gwaith wedi bod yn werthfawr iawn i ni. Yn flynyddol daw lluo o siaradwyr gwadd i'r ysgol i gynnig cymorth gan gynnwys cynrychiolwyr o'r banciau lleol, busnesau lleol a cholegau.

Mae ein pwyllgor dyngarol yn gweithio'n galed yn flynyddol i godi symiau sylweddol o arian i achosion dyngarol lleol a chenedlaethol.

Adroddiad blynyddol – Cyllid

Mae gan y Llywodraethwyr is-bwyllgor Cyllid ac Adeiladau sy'n cyfarfod unwaith y tymor i drafod y pynciau penodol hyn. Yn y flwyddyn 2015-16 llwyddodd yr ysgol unwaith eto i orffen y flwyddyn ariannol o fewn y gyllideb. Fodd bynnag, yn dilyn gostyngiad yng nghyllideb Cyngor Sir Gaerfyrddin gan lywodraeth ganolog, mae'r swm o arian a gafodd ei roi gan y Cyngor i'r ysgol ar gyfer 2016-17 wedi golygu y bu'n rhaid i'r ysgol ddod o hyd i arbedion eleni eto. Llwyddwyd i wneud yr arbedion hanfodol mewn sicrwydd nad oeddent yn effeithio ar ein safonau. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bydd yn rhaid dod o hyd i arbedion pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17. Mae tipyn o her, felly, yn wynebu'r Uwch Dîm Arwain a'r llywodraethwyr yn flynyddol.



Datganiad Ariannol yr ysgol 2015/16

Gwariant		Cyllideb	Gwirioneddol
	Cyflogau	3,296,181	3,260,000
	Adeiladau	343,715	333,245
	Cyflenwadau a Gwasanaethau	413,194	390,805
		4,053,090	3,984,050
Incwm		Cyllideb	Gwirioneddol
	Derbynebaw Cwsmeriaid	163,522	191,480
	Grantiau'r Llywodraeth	3,883,292	3,906,379
	Grantiau eraill	8,762	28,865
		4,055,576	4,126,724
Gwarged / Diffyg		2,486	142,674

Perfformiad Disgyblion

Fel y nodwyd, gwelwyd canlyniadau arbennig o dda gan yr ysgol eleni eto.

CA3 Perfformiad Lefel 5+							
	2013	2014	2015	2016	Teulu 2016	ALI 2016	Cymru 2016
Cymraeg	88.5%	91.0%	95.3%	95.4%	94.9%	88.6%	92%
Saesneg	88.5%	93.0%	92.2%	93.4%	94.6%	89.3%	89.2%
Mathemateg	90.8%	94%	95.3%	96.7%	94.7%	90.3%	90.1%
Gwyddoniaeth	91.6%	96.0%	96.9%	96.7%	97.4%	92.7%	92.8%
DPC	88.1%	91.8%	89.8%	94.1%	93.1%	86.3%	85.9%

CA4							
	2013	2014	2015	2016	Teulu 2016	ALI 2016	Cymru 2016
L2 Cymraeg	78.8%	75%	83.3%	83%		72%	75%
L2 Saesneg	79.3%	79%	81.7%	83%		76%	69%
L2 Mathemateg	76%	79%	88.5%	86%		72%	67%
L2 Gwyddoniaeth	76.7%	73%	84.7%	82%		87%	82%
L1	96.9%	100%	100%	99%		98%	95%
L2	83.6%	90.0%	95%	88%		90%	84%
L2+	71.7%	72.0%	82%	82%		66%	60%
DPC	69.0%	70%	79%	80%		64%	58%
Pwyntiau (capio)	361.8	368.2	383	377		367	346



Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol Uwchradd					Rhif ALI / Ysgol		669/4056
	Canran y disgyblion 15 oed a:						
	Gofrest rodd am o leiaf un cymhwyster	Enillodd drothwy Lefel 1	Enillodd Drothwy Lefel 2	Enillodd drothwy Lefel 2 Cynwysedig	Dango-sydd pynciau craidd	Sgôr Pwytiau cyfartalog wedi'i chapio	Sgôr pwyntiau cyfartalog eang
	Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2016:						
Ysgol 2015/16	100	99	88	82	80	377	600
Ardal ALI 2015/16	100	98	90	66	64	367	621
Cymru 2015/16	99	95	84	60	58	346	544
Ysgol 2014/15/16	100	100	91	79	76	378	637

	Nifer y bechgyn 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2016:						
Ysgol 2015/16	100	100	83	75	75	368	564
Ardal ALI 2015/16	100	97	88	64	62	361	601
Cymru 2015/16	99	94	80	56	54	334	518
Ysgol 2014/15/16	100	100	86	69	67	365	580

	Nifer y merched 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2016:						
Ysgol 2015/16	100	98	95	91	86	388	648
Ardal ALI 2015/16	100	98	92	69	66	374	643
Cymru 2015/16	100	97	87	65	62	358	572
Ysgol 2014/15/16	100	99	96	89	85	391	694

1. Gallwch gael manylion am gymwysterau cymeradwy, sgôr pwyntiau a chyfraniad at drothwyon, yng Nghronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn <http://www.daqw.org.uk>
2. Gallwch gael gwybodaeth am ba feysydd llafur a gynhwysir ym mhob maes pwnc yn Nodiadau Canllaw.
3. Cyfrifir sgorau pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'u capio drwy ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau.
4. Cymhwyster Lefel Mynediad.
5. Ar gyfer SSSP terfynol caiff y diffiniad hwn ei gyfnewid â chanran y disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg heb unrhyw gymwysterau fel y diffinnir o dan y Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol EDU/002.
6. Defnyddir ar gyfer pob tabl meincnodi Prydau Ysgol am Ddim.



Cyrchfannau Disgyblion

Disgyblion	Bl 11		Bl 12		Bl 13	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Parhau mewn addysg llawn amser – yn yr ysgol hon	84	63.6	87	97.8	3	3.5
Parhau mewn addysg llawn amser – mewn ysgol arall	6	4.5				
Parhau mewn addysg llawn amser – coleg	41	31.1	4	4.3	5	5.8
Parhau mewn addysg llawn amser – cwrs addysg Uwch					68	79.1
Blwyddyn allan					7	8.1
Parhau mewn addysg rhan amser						
Hyfforddiant ieuentid gan gynnwys prentisiaeth	1	0.8				
Di-waith ac wedi'i gofrestru â Gyrfa Cymru						
Di-waith a heb ei gofrestru â Gyrfa Cymru						
Methu â dechrau Cyflogaeth, Addysg Uwch yn sgil salwch						
Wedi gadael yr ardal						
Ddim yn ymateb i gamau dilynol ac felly ddim yn gwybod						
Swydd			3	3.2	3	3.5

Presenoldeb

Ysgol Bro Myrddin sydd ar ganran bresenoldeb uchaf yn y Sir yn ystod y 3 mlynedd diwethaf

Presenoldeb disgyblion	2013/2014	2014/2015	2015/2016
% Absenoldebau a awdurdodwyd	4.7%	4.4%	4.2%
% Absenoldebau heb awdurdod	0.1%	0.1%	0.2%
% Presenoldeb	95.3%	95.5%	95.6%

Targedau'r Corff Llywodraethol o ran presenoldeb	2014/2015	2015/2016	2016/2017
% Presenoldeb	95.7%	95.9%	96.1%



Cyfleusterau Toiled

Archwilir Cyfleusterau Toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o'r contract glanhau gyda'r Awdurdod. Mae'r disgyblion, drwy lenwi holiadur a thrwy waith y Cyngor Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn. Rydym wedi gweithredu ar ganlyniadau'r holiadur trwy gyflogi glanhawraig ar safle yn ystod y dydd i ganlbwyntio ar lanhau'r toiledau.

Nodiadau ar Ysgolion Iach

Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'. Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a werthir yn ein hysgol. Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnogaeth y gwasanaeth Arlwygo i sicrhau bod yr holl fwyd a diod yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Bioleg ac ABCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle. Rydym bellach yn anelu at gyrraedd Cam 5 Ysgolion Iach.

Disgyblaeth

Rhaid wrth reolau ysgol er mwyn diogelu trefn a safonau o fewn yr ysgol. Fe'u seilir ar y syniadau canolog o hunan barch, parch at eraill, a synnwyr cyffredin. Trafodir y rheolau yn y gwersi tiwtorial a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio. Cynhelir safonau uchel o ddisgyblaeth trwy weithredu system glir o ddisgyblu disgyblion nad ydym yn cydymffurfio. Yr athro pwnc sydd yn delio â'r disgybl yn gyntaf ac os nad yw hyn yn adfer y sefyllfa mae'r mater yn cael ei drafod o fewn yr Adran. Os oes angen delio ymhellach gyda'r disgybl fe'i cyfeirir at y Pennaeth Blwyddyn i gynnal trafodaethau pellach cyn trafod ataliad awr ginio. Os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson ac yn cael ei osod mewn ataliad awr ginio mwy na thair gwaith yna hysbysir y rhieni y cedwir disgybl mewn ataliad ar ôl ysgol. Gellir atal disgybl rhag dod i'r ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gweithredir polisi hybu ymddygiad cadarnhaol yn yr ysgol ac oherwydd hynny, prin iawn yw'r camymddwyn o fewn a thu allan i furiau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir wrth ddelio â materion yn ymwneud â bwllian, ac yn ymateb yn syth os bydd problem o'r fath yn codi.

Iechyd a diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Cynrychiolir pob categori cyflogaeth o blith y staff ar Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y staff. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Llywodraethwyr. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch am unrhyw ddiffygion / peryglon yn syth.

Trefniadau arbennig o safbwynt hygyrchedd i ddisgyblion, staff a rhieni gydag anableddau

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau nad yw disgyblion (neu rywun arall sy'n rhanddeiliad yr ysgol) ag anableddau yn cael eu trafod yn llai ffafriol nag eraill.

Prospectws yr ysgol

Caiff Prospectws yr Ysgol ei addasu yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol eraill. Rhoddir copi i rieni'r plant sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf neu sy'n trosglwyddo o ysgol arall. Mae copïau ar gael ar wefan yr ysgol neu dros yr e-bost neu os oes problemau gyda hynny, darperir copi caled drwy gais i swyddfa'r ysgol.



Cyfrwng Addysgu a Pholisi Iaith

Addysgir ac asesir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Myrddin a'r cyfrwng addysgu yma, sef y Gymraeg, yw'r norm, wrth reswm, i fwyafrif llethol y disgyblion sy'n dewis Bro Myrddin fel ysgol uwchradd. O ran Gwyddoniaeth mae dewis iaith yn bodoli ers sefydlu'r Polisi Iaith presennol. Ym mis Medi 2015 roedd y disgyblion oedd yn dechrau ym Mlwyddyn 7 yn dilyn Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg os bu iddynt ddilyn y pwnc trwy'r Gymraeg yn yr ysgol gynradd. Lleiafrif o ddisgyblion bellach sy'n dewis astudio Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Saesneg, a hynny ers sawl blwyddyn. O ran Mathemateg eto ym mis Medi 2015 roedd dewis iaith yn bodoli. Ymhob un o'r dosbarthiadau yma, pwysleisir taw'r ddealltwriaeth o Fathemateg sydd bwysicaf i sicrhau safonau uchel yn y pwnc nid y sylw i gyfrwng yr addysgu a'r dysgu. Bellach mae pob disgybl yn CA3 a CA4 yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg cyfrwng Cymraeg yn CA3 darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a TGCh cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dileu unrhyw ofid a all fodoli ymhlith y rhai sy'n credu y gall addysg wyddonol a mathemategol trwy'r Gymraeg yn unig ei gwneud yn anodd i ddisgyblion addasu i gyd-destun gwyddoniaeth a mathemateg cyfrwng Saesneg wedi gadael ysgol. Ar hyn o bryd hefyd mae'r adrannau yn paratoi adnoddau ar-lein i gynorthwyo rhieni di-gymraeg i gynorthwyo eu plant.

Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Anogir disgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur. Mae'r ysgol yn gweithredu ar dargedau Cynllun Strategol Iaith Sir Gâr i symud yr ysgol ar hyd y continwwm ieithyddol. Canlyniad hynny yw bod yr ysgol ers Medi 2016 wedi newid categori iaith o 2A i CC. Golyga hynny, bod pob pwnc oni bai am y Saesneg yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Polisiau

Mabwysiadwyd tri pholisi newydd gan y Corff Llywodraethol yn ystod y flwyddyn sef 'polisi mynd i'r afael â sefyllfaoedd pan mae staff diangen,' 'polisi amddiffyn rhag radicaleiddio' a 'Chynllun wrth gefn – arholiadau.'

Adroddiad Anghenion Addysgol Arbennig 2015-16

Ein nod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw addysgu disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd cyn belled ag y bydd hynny'n ymarferol. Er i blant dderbyn cwricwlwm gwahaniaethol, fe fydd yna adegau pan fydd disgyblion yn cael eu tynnu allan o ddosbarthiadau dros dro, er mwyn canolbwyntio ar rai agweddau allweddol o'r gwaith megis sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Gwneir hyn ar sail profion safonol ac adroddiadau a dderbynnir oddi wrth swyddogion yr awdurdod addysg a phenaethiaid yr ysgolion cynradd ac ar ôl trafod gyda rhieni unigol.

Mrs Caroline Walton, Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol sydd yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth i'r disgyblion ac anghenion addysgol arbennig a threfnu gwaith y staff cynorthwyol. Adolygir y datganiadau yn flynyddol, mewn cyfarfod a drefnir gyda'r rhieni unigol a'r gwasanaethau cynnal sirol.

Mrs Lynwen Roberts sydd wedi ei henwi fel llywodraethwr cyswllt i'r adran.



Ceir 130 o ddisgyblion ar y gofrestr AAA wedi eu dosbarthu fel a ganlyn;

Blwyddyn	Datganiadau	Gweithredu yn yr ysgol a mwy	Gweithredu yn yr ysgol
7	1	10	19
8	2	9	11
9	3	6	13
10	2	6	12
11	1	2	15
12	2	0	0
13	1	0	10
Cyfanswm	12	33	80

Crëwyd proffil ar bob disgybl ar y gofrestr AAA sef y CCU (Cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn). Dengys y CCU farn y disgybl unigol, y ffactorau sy'n effeithio ar eu dysgu mewn gwersi, canlyniadau unrhyw brofion safonedig a thargedau athrawon.

Bellach derbynia nifer fawr o ddisgyblion sydd ar y Gofrestr AAA drefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol. Cyflwynwyd darlennydd cyfrifiadur i ddisgyblion sydd ar hawl i gael darlennydd. Galluoga hyn y disgyblion sy'n sefyll Cymraeg neu Saesneg iaith i glywed y testun yn cael ei ddarllen yn uchel. Felly, mae'r disgyblion sydd â sgiliau darllen gwan ond sgiliau darllen a deall da yn gallu cael mynediad i bapurau iaith Cymraeg a Saesneg am y tro cyntaf.

Datblygwyd gweithdy darllen ar gyfer darllenyddyr llai hyderus yn ystod y flwyddyn sef y 'Literacy Toolbox.' Defnyddia'r cynllun gyfrifiaduron a dulliau dysgu arbennig i hybu sgiliau darllen, llawysgrifen a sillafu. Gwelwyd gweliant sylweddol yn oedran darllen y disgyblion a fu'n rhan o'r cynllun. Cynhelir nifer o weithdai arbenigol gan yr Adran gan gynnwys gweithdy llawysgrifen; gweithdy Fresh Start; gweithdy Literacy Toolbox a gweithdy Llythrennau a Synau.

Lles disgyblion

Mae gennym dîm o bobl yn gweithio er mwyn lles y disgyblion. Mae pedwar aelod wedi eu hyfforddi fel swyddogion amddiffyn plant – Dr Llinos Jones, y pennaeth; Mr Euryn Madoc Jones, dirprwy bennaeth; Miss Zelda Williams a Mr Jonathan Thomas, penaethiaid cynorthwyol. Mae'r penaethiaid blwyddyn yn chwarae rôl holl bwysig, felly hefyd y swyddog ieuentid, swyddog presenoldeb, iechyd a lles, nyrs iechyd yr ysgol a chwnselyddion. Gwelwyd 46 o ddisgyblion gan gwnselyddion yr ysgol Mrs Netta Thomas a Miss Carys Williams eleni. Mae'r cynllun Mentora Cyfoedion, sef cynllun i hyfforddi disgyblion y chweched dosbarth i weithio gyda phlant bregus yn mynd o nerth i nerth.



Chwaraeon

Mae'r Llywodraethwyr o'r farn y gwireddwyd prif nodau chwaraeon yr ysgol sef:

- Darparu amgylchedd diogel sy'n symbyliad i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrydd cyffredinl
- Datblygu sgiliau corfforol
- Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

Cynigir lluo o weithgareddau gan yr adran a'r swyddog 5x60 gan gynnwys rygbi, pêl-droed, athletau, criced, tenis, gymnasteg, cyfeiriannu, badminton, aerobeg, trawsgwlad, pêl-rwyd, dawns greadigol, canwio, rafftio, rownderi, sgïo, gweithgareddau awyr agored, hoci, pêl-fasged, rygbi cyffwrdd, pêl-foli, ymarfer cylched, ymarfer pwysau, dringo, beicio mynydd a mynydda. Yn ychwanegol mae llawer o'r disgyblion yn cwblhau Gwobr Efydd ac Arian Dug Caeredin yn flynyddol.

Mae llwyddiant ein disgyblion ar y caeau chwarae yn yr ysgol ac yn allgyrsiol yn arbennig gyda sawl unigolyn yn cyrraedd safon genedlaethol. Bellach ers llynedd mae gan yr ysgol gyngor Chwaraeon a etholwyd trwy bleidlais gan y disgyblion. Rôl y cyngor Chwaraeon fydd arwain a chynghori'r UDA ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r maes.

Llwyddiannau

Ymhyfryda'r ysgol hefyd yn llwyddiannau academaidd ac allgyrsiol ein disgyblion, nid yn unig ar y caeau chwarae ond ar lwyfannau cenedlaethol ac ym myd actio a'r cyfryngau.

Gweithgareddau allgyrsiol

Yn flynyddol cynigir lluo o brofiadau allgyrsiol i'n disgyblion i gyd-fynd gyda'u hastudiaethau academaidd. Cynhelir teithiau niferus, gweithdai amrywiol, cystadlaethau diddorol, siaradwyr gwadd, cynadleddau blynyddol a chyfleoedd o bob math.

Pwyllgor dyngarol

Mae gennym bwyllgor dyngarol gweithgar o 70 o ddisgyblion y chweched dosbarth. Eleni casglwyd dros £6,000 ar gyfer achosion da amrywiol.


Cyfarfod Rhieni Blynyddol

Ers Mai 2013 mae trefniadau newydd mewn grym o ran cyfarfod blynyddol llawn y llywodraethwyr / rhieni. Yn hytrach na bod yn rhaid i gorff llywodraethau gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni, mae gan rieni'r hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu ar faterion sy'n destun pryder. Gall rhieni arfer yr hawl hon hyd at dair gwaith yn ystod blwyddyn ysgol, cyn belled mai pwrpas y cyfarfodydd yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion ynghylch aelod o staff neu aelod o'r corff llywodraethu. Caiff cyfarfod ei drefnu gyda'r Llywodraethwyr, felly, os bydd 10% neu 30 o'r rhieni yn gofyn yn ysgrifenedig am gael cyfarfod gan ddefnyddio adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.



Holiadur i Rieni

A fydech mor garedig â defnyddio'r holiadur newydd a ddsberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad ac, os yw'n briodol, er mwyn awgrymu syniadau y gallwn eu mabwysiadu er budd yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2015-16, dyma oedd eich ymateb i'r holiadur.



1. Ar y cyfan, rwy'n fodlon ar yr ysgol.
2. Mae fy mhlentyn yn hapus yn yr ysgol.
3. Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
4. Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
5. Mae safon yr addysgu yn dda.
6. Mae'r staff yn disgwyl i'm plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau.
7. Mae'r gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei gael yn yr ysgol.
8. Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg ac â pharch.
9. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
10. Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i fod yn iach a chymryd ymarfer corff yn rheolaidd.
11. Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
12. Mae'r ysgol yn gwrandao ar lais fy mhlentyn.
13. Mae fy mhlentyn yn derbyn cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol pe-nodol.
14. Rwy'n cael digon o wybodaeth am gynnydd fy mhlentyn.
15. Rwy'n teimlo'n gyfforddus am fynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.
16. Rwy'n deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
17. Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb.
18. Mae fy mhlentyn yn barod i symud ymlaen i'r ysgol neu goleg nesaf neu i mewn i gyflogaeth.
19. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
20. Caiff yr ysgol ei rhedeg yn dda.



Rhestr o ddigwyddiadau 2015-16

Medi—Tachwedd 2015

4ydd o Fedi – Aeth holl ddisgyblion blwyddyn 12 a'u tiwtoriaid ar drip anwytho i Barc Antur Heatherton. Cafwyd cyfle i fwynhau yn yr haul a phrofi gweithgareddau adeiladu tîm o bob math. Cafwyd glychfa go iawn ar y cychod clatsio, cyfle i gyrraedd y canol llonydd gyda'r saethyddiaeth, curu'r athrawon yn rasio wrth go cartio, anelu am dwll mewn un gyda'r golff dwl, curu'r athrawon wrth saethu colomennod clau a sgrechen wrth hedfan lawr y "zip wire".

9fed o Fedi – Am dridiau bu blwyddyn 7 newydd yr ysgol, tiwtoriaid dosbarth blwyddyn 7 a disgyblion o'r chweched dosbarth yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Cafwyd tridiau hwyliog yn llawn gweithgareddau a gweithdai.

14eg o Hydref – Aeth blwyddyn 7 ar daith Addysg Grefyddol i Gaerdydd i ymweld â'r Synagog a'r Gwrddwara.

Siaradwyr gwadd

Cafwyd lluo o siaradwyr gwadd i'r ysgol yn ystod y misoedd diwethaf:

Nerys Evans – trafodaeth ar bynciau sy'n effeithio deddf gwlad.

Lorena Prist – trafodaeth ar yr Undeb Ewropeaidd.

PC Cath – rhaglen cyswllt ysgolion.

Gyrfau Cymru – Llwybrau Dysgu.

Non Vaughan Williams, Prifysgol Abertawe – Datganiad Personol.

Lowri Wyn Bulman – Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Parchedig Tom Defis – Cymorth Cristnogol.

Bws Cyffuriau.

Y cerflunydd Claire Feguson Walker o CFW Design.

Ymweliad gan gwmnïau QCD Service (Ponthenri) a BBC IT o Gastellnewydd Emlyn

Ymweliad gyda chwmni Magstim ar gyfer blwyddyn 11.

Brolympau 2015 – Ar Ddydd Gwener, Gorffennaf y 3ydd cafwyd diwrnod o chwaraeon a drefnwyd gan P4C – y pwyllgor Cymreictod. Roedd yn ddiwrnod hefyd i godi arian i brynu diffibrileiddiwr ar gyfer yr ysgol. Penderfynwyd y byddai gweddill yr arian yn cael ei rannu rhwng dwy elusen benodedig Cadeirydd y Cyngor Sir, Mr Peter Hughes Griffiths sef Llyfrau Llafar Cymru a Tenovus Gorllewin Cymru. Daeth Tommo a Terwyn o Radio Cymru i ymuno yn yr hwyl a chafwyd lluo o ston-dinau a gweithgareddau hwyl i ddi-ddanu pawb. Bu'r staff hefyd yn brysur gyda 'rhwyo nodedig' drwy'r dydd. Llys bud-dugol 2015 oedd llys Hengwrt. Yn dilyn y diwrnod arbennig, cyflwynwyd sic o £600 i gadeirydd y Cyngor Sir, Mr Peter Hughes Griffiths a chodwyd digon o arian i brynu diffibrileiddiwr i'r ysgol hefyd.

Diffibriliwr i Fro Myrddin – Yn dilyn diwrnod o godi arian ar ddiwedd y tymor, llwyddodd yr ysgol yn ei nod i godi'r arian ar gyfer prynu diffibriliwr i'r ysgol. Drwy gydweithio gyda'r elusen gofrestrdig, CARIAD, llwyddodd yr ysgol i brynu diffibriliwr. Bellach mae'r teclyn yn cael ei gadw yn yr ysgol ar gyfer defnydd yr holl ysgol a'r gymuned ehangach. Fe fydd 25 o staff hefyd yn derbyn hyfforddiant yn yr wythnosau nesaf.

Cystadleuaeth Cymdeithas Fiolegol Brenhinol – Cyn yr haf cynhaliwyd cystadleuaeth y Gymdeithas Fiolegol Frenhinol a llwyddodd wyth o flwyddyn 11 i ennill tystysgrif clod. Llongyfarchiadau i Garmon Dyfri, Rhys Evans, Lowri Mathias, Libby Jones, Nia Williams, Lowri Davies, Chloe Williams, Bethan Thomas a Gemma Davies. Enillwyd tystysgrif Efydd hefyd gan Lowri Davies.

Uwch swyddogion yn cychwyn ar eu taith – Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd fe ddechreuodd Lowri Luxton ac Aled Rosser ar eu taith fel ein prif ferch a phrif fachgen. Yn eu cynorthwyo mae criw brwdfrydig o'r chweched – Lowri Butterworth, Mared Jones, Ieuan Jones ac Iwan Harries.

Cyngerdd Apêl Ffoaduriaid – Ar nos Sadwrn, Hydref 3ydd, bu Côr Merched Hŷn Ysgol Gyfun Bro Myrddin yn rhan o gyngerdd a drefnwyd i godi arian i Apêl Ffoaduriaid Syria yng Nghapel Penuel, Caerfyrddin. Roedd hi'n braf cefnogi'r fath achos teilwng, a hefyd yn fraint perfformio mewn noson gyda Caryl Parry Jones, Gareth Elis a Chôr Ysgol y Dderwen.



Bore Coffi MacMillan – Bob blwyddyn ers chwarter canrif mae Elusen MacMillan yn annog pobl i ymuno ym More Coffi Mwy'r Byd drwy gynnal digwyddiad yn eu lle gwaith. Penderfynodd 15 o ddisgyblion y chweched i gynnal Bore Coffi yn yr ysgol ar fore Gwener, Hydref 2il ar gyfer y staff a'r chweched. Addurnwyd y Llyfrgell gan faneri a nwyddau MacMillan ac roedd y byrddau yn frith o gacennau blasus yn barod ar gyfer y bore. Cafwyd cefnogaeth wych i'r ymdrech ac roedd y Llyfrgell yn llawn bwrlwm drwy'r amser egwyl estynedig. Gyda thâl mynediad o £3 a oedd yn cynnwys paned o de neu goffi a chacennau blasus, ynghyd â raffl codwyd y swm anhygoel o £440!

Cyngor ysgol a'r Cyngor Chwaraeon – Trwy bleidlais, etholwyd pobl ifanc newydd i gynrychioli'r ysgol ar y Cyngor Ysgol a'r Cyngor Chwaraeon ym mis Medi.

Gweithdy Only Men Aloud – Cafodd pump ar hugain o fechgyn hŷn yr ysgol gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy Only Men Aloud ddydd Mercher, Hydref 14eg gyda'r canwr opera Huw Llywelyn yn arwain y sesiwn.

Noson Agored – Unwaith eto eleni cafwyd noson agored lwyddiannus, wrth i'r ysgol agor ei drysau i'r cyhoedd. Roedd y noson hon yn gyfle i'r ysgol ddangos yr ysgol ar waith. Cafwyd nifer o weithgareddau ar draws yr ysgol.

Gwasanaeth Diolchgarwch – I gloi hanner tymor yr Hydref cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Croesawyd y Parchedig Beti Wyn James i rannu ei neges. Cafwyd darlleniadau gan y prif swyddogion Lowri Luxton, Aled Rosser, Lowri Butterworth, Mared Jones, Iwan Harries ac Ieuan Jones. Cafwyd cyfraniad arbennig gan ddisgyblion o flwyddyn 7 i'r gwasanaeth sef Betsan Elias, Betsan Campbell, Carina Sidhu, Rhys Lewis a Llew Richards. Cafwyd eitemau cerddorol gan y Côr Iau – Ceirios (J Eirian Jones) dan arweiniad Mrs Nia Evans a gân gan y Parti Merched Hŷn – Angus Dei (Robart Arwyn) a gân gan y côr hŷn – Canaf yn y bore (L.J.Roberts) dan arweiniad Mrs Meinir Richards.

Banc Bwyd Caerfyrddin – Yn dilyn y gwasanaeth Diolchgarwch, derbyniodd yr ysgol nifer o gyfraniadau tuag at fanc bwyd Caerfyrddin gan y staff a'r disgyblion. Ar fore Iau, yr 22ain o Hydref aeth criw o'r chweched dosbarth i Fanc Bwyd yng Nghaerfyrddin i drosglwyddo'r nwyddau.

Tlws yr Ifanc Eisteddfod Bancffosfelen – Llongyfarchiadau i Ela Wyn James am ennill tlws yr ifanc yn Eisteddfod Bancffosfelen. Enillodd y brif wobwr sef tlws Mr a Mrs Emanuel am y gwaith gorau yn yr Adran Iên yn ogystal.

Llwyddiannau chwaraeon

Pencampwyr sgïo – Llongyfarchiadau i Aidan Jones, Owen Llewellyn-Jones, Huw Butterworth a Tom Butterworth am ennill cystadleuaeth sgïo Cymru yn ddiweddar. Am y tro cyntaf erioed, Bro Myrddin yw pencampwyr sgïo bechgyn Cymru a'r 'sgï' i brofi hynny yn cael ei harddangos yng nghyntedd yr ysgol.

Llongyfarchiadau i flwyddyn 7 ac 8 yn eu buddugoliaeth yn erbyn ysgol QEH yn y frwydr flynyddol 'Sialens Farsity.'

Gemau – mae'r ysgol a'r Adran Addysg Gorfforol wedi bod yn brysur iawn ers mis Medi a llawer iawn o gemau wedi eu chwarae. O ran hoci, collwyd 4 gêm a chafwyd dwy gêm gyfartal.

O ran pêl-rwyd enillwyd twrnament Ann Smart dan 16 oed a bydd yr ysgol yn mynd ymlaen i dwrnament Gorllewin Cymru. Chwaraewyd 16 o gemau ac enillwyd 14 a cholli dwy.

Rygbi Blwyddyn 7 – Strade 5 YBM A 7; Strade 14 YBM B 45; QEHS A 0 YBM A 50; QEHS B 0 YBM B 35.

Rygbi Blwyddyn 8 – YBM 45 Strade 0.

Rygbi Blwyddyn 9 – YBM 47 Strade 22; YBM 57 QEHS 7.

Rygbi Blwyddyn 10 – YBM 26 QEHS 8

Timoedd Hŷn – YBM 1af 34 Bro Dinefwr 0; YBM 2il 33 Bro Dinefwr 19; CSG 21 YBM 1af 26; YBM 1af 14 QEHS 17; Maes y Gwendraeth 0 YBM 1af 47; Maes y Gwendraeth 19 YBM 2il 24.

Un gêm a gollwyd yn unig, felly, gan y timoedd rygbi ers mis Medi.

Pêl-droed Blwyddyn 7 – Bro Dinefwr 1 Bro Myrddin 3.

Pêl-droed Blwyddyn 8 – Bro Myrddin 7 Dyffryn Aman 4; Bro Myrddin 3 QEHS 1

Pêl-droed Blwyddyn 9 – QEHS 4 Bro Myrddin 3.

Pêl-droed Blwyddyn 10 – Dyffryn Aman 3 Bro Myrddin 4; Bro Dinefwr 1 Bro Myrddin 2.

Pêl-droed Merched Blwyddyn 7/8 Dyffryn Aman 4 Bro Myrddin 0.

Pêl-droed Blwyddyn 12/13 Bro Myrddin 2 Strade 3.



Mawrth 2016

Sioe Aeaf Llanfair ym Muallt – Ar Ragfyr y 1af bu disgyblion blwyddyn 10 ac 11 sy'n astudio Amaeth ar wibdaith i'r ffair Aeaf yn Llanfair ym Muallt.

Ymweliad â'r Atom yng Nghaerfyrddin – Yn dilyn ymweliad Mrs Lola Wyn i'r ysgol cafodd dosbarth 8-3 gyfle i ymweld â chanolfan newydd yr Atom yng Nghaerfyrddin. Cawsant eu tywys o gwmpas yr Atom gan Mrs Lola Wyn.

Stori'r Geni'n fyw – Pnawn dydd Iau ola'r tymor aeth disgyblion flwyddyn 7 gyda'r Adran Addysg Grefyddol i weld drama Stori'r Nadolig yng nghapel Y Bedyddwyr, Heol Awst.

Taith y Ffindir Tachwedd 2015 – Teithiodd deg o aelodau y pwyllgor Eco i'r Ffindir ar drydedd taith yr ysgol fel rhan o'r bartneriaeth Ewropeaidd Erasmus+. Cafodd y disgyblion a'r athrawon brofiadau lu gan gynnwys ymweld ag ysgolion, ymweld â gweithfeydd hydro-electrig Isohaara, ffatri bŵer a gwres Toppila ac uchafbwynt y daith - ymweld â Chylch yr Arctig.

Taith Mathemateg i Gaerdydd – Ar ddydd Mercher yr 20fed o Ionawr, aeth criw o ferched blwyddyn 12 a 13 i Brifysgol Caerdydd er mwyn cael cyfres o ddarlithoedd Mathemateg. Pwrpas y diwrnod oedd i'n haddysgu am y cyfleoedd sydd ar gael i fenywod yn y byd Mathemateg.

Anturiaethau Disgyblion y Chweched, Astudiaeth Crefyddol – Dydd Mercher y 24ain o Chwefror aeth disgyblion blwyddyn 12 Astudiaethau Crefyddol Bro Myrddin i ymweld â chanolfan grefyddol Skanda Vale yn Llanpumsaint.

Diwrnod Adolygu Astudiaethau Crefyddol yn y Drindod – Eto eleni cafodd disgyblion blwyddyn 12 Astudiaethau Crefyddol gyfle i fynychu diwrnod adolygu yng Ngholeg Y Drindod Dewi Sant.

Pwyllgor Eco – Llongyfarchiadau i'r Pwyllgor Eco am eu llwyddiant yn y gystadleuaeth addurno Coed Nadolig yn y gerddi Botaneg. Enillwyd y wobr Cynladwyedd ganddynt.

Eisteddfod Ddwl Mentrau Iaith Sir Gâr, 2015 – Ar ddydd Llun, yr 16eg o Dachwedd yn neuadd y Civic Llandelio aeth blwyddyn 7 i gystadlu'n frwd i geisio ennill y teitl pencampwyr Eisteddfod Ddwl Mentrai Sir Gâr 2015. Eleni, fe ddaeth yr ysgol yn ail.

Gwasanaeth Nadolig – Ar nos Fawrth, Rhagfyr y 15fed croesawyd pawb i wasanaeth Nadolig yr ysgol yng Nghapel y Priordy, Caerfyrddin.

Gwasanaeth ola'r tymor – Ar brynhawn Gwener, y 18fed o Ragfyr daeth yr ysgol i gyd ynghyd ar gyfer gwasanaeth olaf y tymor.

Pabis dur disgyblion Bro Myrddin Ypres, Gwlad Belg – Ar ddydd Llun y 11eg o Ionawr aeth 16 disgybl blwyddyn 9 Dylunio a Thechnoleg i gydweithio gyda gof lleoli i greu 17 pabi allan o ddr ar gyfer cofio 'Ypres 2016'. Ym mis Medi 2016 bydd cofeb newydd yn cael ei gosod o flaen caeau Flanders yn Ypres, Gwlad Belg. Bydd y gofeb yn cael ei lleoli ger y Fynwent Ryfel Almaenig yn Langemark Poelkapelle. Bydd y gofeb yn coffáu pawb a fu'n rhan o'r Rhyfel Byd Cyntaf, boed yn filwrol neu yn sifil. Bydd un pabi a grëwyd gan y disgyblion yn cael ei osod wrth droed y gofeb newydd tra bydd yr 16 pabi arall yn cael eu cynnwys mewn torch a fydd yn cael ei gosod yn Menin Gate, Ypres. Mae pob pabi yn unigryw i'r disgybl ac mae llythrennau blaen y disgybl a greodd pob pabi wedi cael eu stampio yn barhaol arnynt.

Côr a Cherddorfa Cenedlaethol Ieuentid Cymru – Llongyfarchiadau i'r canlynol am gael eu derbyn: Sioned Beynon Bl 12; Elen Fflur Davies Bl 12; Gwenno Griffiths Bl 12; Mared Owen Bl 11; Gwenno Accaioli Bl 12; Sophie McLaughlin Bl 13.



Eisteddfod yr Urdd – Yn dilyn Eisteddfod Gylch lwyddiannus fe wnaeth 29 o gystadlaethau gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Sir.

Cyngerdd Dathlu Gŵyl Ddewi – Ar nos Sadwrn y 5ed o Fawrth roedd corau'r ysgol wedi eu gwahodd i rannu llwyfan y lyric gyda Chôr Meibion De Cymru a'r bariton Gary Griffiths. Noson lwyddiannus iawn.

Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi – Dechreuwyd dathliadau dydd Gŵyl Dewi'r ysgol yn y gwasanaeth boreol dan arweiniad Dr Llinos Jones. Cafwyd hanes yr ŵyl a neges bwysig y gwasanaeth sef 'gwnewch y pethau bychain'. Roedd y disgyblion a'r staff wedi gwisgo mewn lliw coch ac ambell i wisg Gymreig yn eu mysg. I ginio roedd y ffreutur wedi darparu cawl a phice ar y maen. Yn ystod yr awr ginio roedd cyfle i aelodau'r chweched dosbarth, athrawon a gweddill yr ysgol i gymryd rhan mewn twmpath dawns gyda Mrs Ffion Page yn arwain.

Llwyddiannau chwaraeon

Pencampwyr sgïo – Llongyfarchiadau i Aidan Jones, Owen Llewellyn-Jones, Huw Butterworth a Tom Butterworth am ennill cystadleuaeth sgïo Cymru yn ddiweddar ac am ddod yn 6ed ym Mhrydain. Bydd yr ysgol yn cystadlu allan yn Ffrainc ym mis Mawrth.

Pencampwyr Cymru rhedeg Trawsgwlad

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ddod yn bencampwyr Cymru rhedeg trawsgwlad bechgyn o dan 13eg oed – Bedwyr Thomas, Liam Edwards, Joseff Rhys-Elis ac Iwan Glynn.

Yn nhîm y merched roedd Maddie Morgan a Daisy Thompson.

Pêl rwyd

Blwyddyn 7 – Ennill 14, colli 0

Blwyddyn 8 – Ennill 5, colli 6 ac un gêm gyfartal

Blwyddyn 9 – Ennill 9, colli 3

Blwyddyn 10 – Ennill 9, colli 1

Blwyddyn 11 – Ennill 1

Blwyddyn 12/13 – Colli 2.

Dan 16 Gorllewin Cymru – Ennill 3 gêm – felly merched blwyddyn 10 yn bencampwyr pêl-rwyd Gorllewin Cymru.

Hoci

Blwyddyn 7 – Dwy gêm gyfartal

Blwyddyn 8 – Colli 3 ac un gêm gyfartal

Blwyddyn 9 – Colli 2 ac un gêm gyfartal

Blwyddyn 10 – Ennill 9, colli 4

Blwyddyn 12/13 – Ennill 1, colli 5.

Dan 16 De Sir Gaerfyrddin – Ennill 2 gêm; Rownd derfynol Sir Gaerfyrddin – colli.

Rygbi

Blwyddyn 7 – Ennill 5, colli 0

Blwyddyn 8 – Ennill 2, colli 0. Colli yn rownd cyn-derfynol cystadleuaeth 7 bob ochr yn erbyn Glantaf.

Blwyddyn 9 – Ennill 3, colli 1

Blwyddyn 10 – Ennill 1, colli 1

Tîm 1af – Colli 3.

Pêl-droed

Blwyddyn 8 – Ennill 1, pencampwyr Sir Gaerfyrddin



Cystadleuaeth Pêl Fasged Hwb Caerfyrddin

Tîm Blwyddyn 9 – 3ydd

Tîm Blwyddyn 11 – Pencampwyr Hwb Caerfyrddin

Pencampwriaeth Cymru ‘cyclo-cross’

Llongyfarchiadau i Guto Dafydd 9-2 a enillodd gystadleuaeth Pencampwriaeth cyclo cross gyda Tywi Riders a gynhaliwyd ym Mae Colwyn yn ddiweddar.

Cap Criced i Gymru

Llongyfarchiadau i Owen Bailey 7.4 am ennill ei gap criced. Mae'n chwarae yn y garfan dan 11 oed. Mae eisoes wedi chwarae 15 gêm i Gymru yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd ei gap yn swyddogol iddo yn Stadiwm Swalec, Caerdydd ar Ddydd Sadwrn 5ed o Ragfyr ac ail gyflwynwyd y cap iddo mewn gwasanaeth arbennig yn yr ysgol.

Gwobr Aur i dîm Prydain a Mrs Nerys Blue

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Nerys Blue oedd yn cystadlu gyda thîm GB yng nghystadleuaeth rafftio Prydain yn Indonesia yn ddiweddar. Enillwyd y wobwr Aur gyda'r gystadleuaeth 'head to head' rafftio a 3ydd yn y Sprint.

Gwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin – Ar nos Wener y 29ain o Ionawr cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol chwaraeon y dref. Gwobrwywyd Daisy Thompson o fl 7 fel y ferch iau o dan 13, Iwan Glyn o fl 8 fel y bachgen iau o dan 13, Huw Butterworth o fl 11 fel y bachgen canolradd o dan 16 oed ac Aiden Jones o fl 12 fel y bachgen ifanc o dan 19. Daeth tîm sgïo yr ysgol yn ail yn y categori tîm iau.

Haf 2016

Teithio i wlad Belg – Fel y gwyddoch, bu disgyblion yr ysgol yn cydweithio gyda gof lleol i greu 17 pabi allan o ddu ar gyfer cofio 'Ypres 2016'. Ym mis Medi 2016 bydd cofeb newydd yn cael ei gosod o flaen caeau Flanders yn Ypres, Gwlad Belg. Bydd y gofeb yn cael ei lleoli ger y Fynwent Ryfel Almaenig yn Langemark Poelkapelle. Bydd y gofeb yn coffáu pawb a fu'n rhan o'r Rhyfel Byd Cyntaf, boed yn filwrol neu yn sifil. Bydd un pabi a grëwyd gan y disgyblion yn cael ei osod wrth droed y gofeb newydd tra bydd yr 16 pabi arall yn cael eu cynnwys mewn torch a fydd yn cael ei gosod yn Menin Gate, Ypres. Mae'r ysgol bellach wedi cael gwahoddiad swyddogol gan y 'Last Post Association' i fynd allan i ganu ym Menin Gate, Ypres, Gwlad Belg ar Fedi y 5ed. Dyma'r unig gôr o Gymru sydd wedi cael gwahoddiad – dyma fraint arbennig iawn. Rydym wedi dechrau trafod a threfnu.

Yr Adran Gerdd – Ar ddydd Mercher, Ebrill 13eg, bu disgyblion Bl 13 yr Adran yn Ysgol y Frenhines Elisabeth yn gwrando ar berfformiad o gyfansoddiadau dau ddisgybl ym Mlwyddyn 13 sef Angharad Perkins Thomas a Wiliam Pritchard. Roedd y bore yn ffrwyth cystadleuaeth a drefnwyd gan brosiect Cyfansoddwr Ifanc Dyfed, ac roedd cyfansoddiadau'r disgyblion yn cael eu perfformio yno gan yr ensemble broffesiynol *Red Priest*; profiad hyfryd i Angharad a Wiliam. Cafodd Wiliam brofiad ychwanegol o gael ei ddarn yntau wedi ei berfformio mewn cyngerdd cyhoeddus ym Mhlysy Rhosygilwen ym Moncath bnawn Sul, Ebrill 17eg. Er mwyn ychwanegu ymhellach at eu profiad a'u haddysg, trefnwyd taith ar y cyd ag ysgolion y Strade a Preseli i neuadd y Barbican yn Llundain nos Iau, Ebrill 21ain i glywed perfformiad byw o'r gwaith arbennig hwn.

Bu'r pianydd proffesiynol Iwan Llywelyn Jones ar ymweliad yn yr ysgol ar Ebrill 14eg. Braff llongyfarch y disgyblion canlynol ar eu llwyddiant yn cael eu derbyn i Gerddorfa'r Chwe Sir – Wiliam Pritchard, Bronwen Lewis, Sophie McLaughlin, Aled Rosser, Owen Llewellyn Jones, Ffion Richardson, Greta Llyr, Gwenno Accaioli, Beth Jones, Daniel O'Callaghan, Manon Dafydd Jones, Andrea Jones, Nia James, Mali Hughes, Lowri Davies a Catrin Owen.



Clwb Garddio Ysgol Bro Myrddin i dyfu hadau o'r gofod! – Mae aelodau o'r Clwb Garddio, yn Ysgol Bro Myrddin yn paratoui i ddod yn fiolegwyr gofod ac yn cychwyn ar daith i ddarganfod hadau sydd wedi bod yn tyfu yn y gofod. Ym mis Medi, cafodd 2kg o hadau roced ei hedfan i'r Orsaf Ofod Ryngwladol lle byddant yn treulio sawl mis cyn dychwelyd i'r Ddaear ym Mawrth 2016. Mae'r hadau bellach wedi cyrraedd ac wedi eu plannu.

Noson Wobrwyo Ysgol Bro Myrddin – Ar Nos Fercher, 23ain o Fawrth 2016 cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol yr ysgol gyda'r siaradwr gwadd Dr Mererid Hopwood. Enillwyd y gwobrau arbennig gan Natalia Quiros Edmunds, Niamh Elain, Angus Bruce, James Jones, Siwan Dafydd, Lucy Thomas, Aled Owen, Carys Price, Phoebe Jones, Rhys Williams, Nia Emanuel, Aled Rosser, Siwan Mai Jones, Sioned Beynon, Ifan Gwynedd, Erin Walters, Fflur Jones, Hannah Davies, Ryan Skinner, Aron Hughes a Ffion Walters.

Baner werdd i Fro Myrddin – Llongyfarchiadau i'r ysgol ac aelodau'r Pwyllgor Eco am dderbyn gwobr Y Faner Werdd. Mae aelodau'r Pwyllgor Eco a'u hathrawon wedi bod yn brysur yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf yn sicrhau bod Bro Myrddin yn ysgol eco gyfeillgar.

Marc Ansawdd Gyrfa Cymru – Llongyfarchiadau mawr i'r ysgol am dderbyn Marc Ansawdd Gyrfa Cymru. Yr ysgol bellach yw'r un gyntaf yn yr ardal i gael ei hail-achredu gyda'r Wobr. Mae'r wobwr yn arwydd clir o welliant parhaol yr ysgol ym maes Addysg Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Stwnsh – "Y Gemau Gwyllt" – Llongyfarchiadau i Harri Griffiths o flwyddyn 9 a gafodd ei ddewis i fynd i'r rownd derfynol yn y gyfres "Y Gemau Gwyllt" ar gyfer Stwnsh S4C yng Nghanol Plas Y Brenin yng Nghapel Curig ger yr Wyddfa. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ym mis Medi.

Eisteddfod yr Urdd, Sir y Fflint – Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn eleni eto gan gipio 8 gwobr gyntaf, 5 ail wobwr a 2 trydedd wobwr. 1af – Unawd iau – Alaw Evans, Deuawd iau a deuawd cerdd dant iau – Alaw Evans ac Elin Fflur, Parti Bechgyn iau, Parti Merched iau, Côt Cerdd Dant Hÿn, Cyfres o brintiadau lliw dan 15 – Guto Huws a barddoniaeth blwyddyn 12 a 13 – Elin Wyn James. 2il – Côt gwerin hÿn, Llefaru unigol iau – Hanna Medi, Parti Cerdd Dant Iau, Parti Bechgyn Hÿn a Pharti Merched Hÿn. 3ydd – Rhyddiaith bl 9 – Hanna Medi, Erthygl newyddiadurol dan 25 – Garmon Dyfri.

Tair gwobr Aur i dîm Prydain a Mrs Nerys Blue – Llongyfarchiadau mawr i Mrs Nerys Blue oedd yn cystadlu gyda thîm GB yng nghystadleuaeth rafftio Prydain yn ddiweddar. Enillwyd tair gwobr Aur ganddynt.

Bro Myrddin yn Stadiwm y Principality, Caerdydd - Roedd dydd Mawrth, Mai y 3ydd yn ddiwrnod hanesyddol i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin gan bod bechgyn blwyddyn 11, am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol, wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Ysgolion Cymru. Cynhaliwyd y gêm yn Stadiwm y Principality a theithiodd 650 o ddisgyblion ac athrawon yr ysgol i gefnogi'r bechgyn. I gyrraedd y rownd derfynol roedd y bechgyn wedi curo timoedd ysgolion y Strade, Ystalyfera, Bishopston, Dyffryn Conwy a Threorci. Tîm ysgol Brynteg oedd ein gwrthwynebwyr yn y gêm derfynol. Ar y diwrnod, yn anffodus, colli bu hanes y tîm o 20 i 15. Cafwyd prynhawn i'w gofio a gwobrwwyd y bechgyn ar ddiwedd y dydd gan Rob Howley. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i'r canlynol am eu nodd yn y gystadleuaeth: Mr Brian Jones, Castell Howell, Charles Samms, Lorne Stewart, Martin Taff, Thomas Glass a Dyfed Alarms.

Llwyddiant ein rhedwyr ifanc – Cafodd Iwan Glynn o flwyddyn 8 ddiwrnod arbennig yn cystadlu yn yr Alban nôl yn fis Mawrth i gystadleuaeth SIAB yn y ras dan 15 oed. Roedd Iwan yn rhan o dîm Cymru a enillodd y fedal arian. Teithiodd Iwan hefyd gyda thîm o dri deg chwech o athletwyr gorau Cymru i Lundain i redeg yn rasys Mini Marathon Llundain. Llongyfarchiadau hefyd i Daisy Thompson a chafodd ei gwahodd i'r un gystadleuaeth.

Llwyddiant i farchogion yr ysgol – Llongyfarchiadau mawr i dîm yr ysgol a enillodd fedal aur a dwy fedal arian mewn cystadleuaeth farchogaeth genedlaethol yn ddiweddar. Y tîm oedd: Lewys Daniels, Tomos Daniels, Celyn Yate, Eleanor Phillips, Sarah Evans a Heidi Lewis.



Mabolgampau'r ysgol – Cafodd yr ysgol fabolgampau llwyddiannus iawn i lawr yn Nhre Iwan ar ddydd Gwener, Mai y 6ed gyda llys Hergest yn fuddugol. Yn dilyn y drefn flynyddol, cyflwynwyd gwobrau i bencampwyr bob blwyddyn. O ran blwyddyn 7 Betsan Thomas a Liam Edwards a gyrhaeddodd y brig. Maddie Morgan, Hanna Lewis ac Iwan Glynn oedd enillwyr blwyddyn 8. Eva Edwards a Dylan Richards oedd pencampwyr blwyddyn 9 a Molli James a Harri Jones oedd pencampwyr blwyddyn 10.

Cheerleading ym Mharis – Llongyfarchiadau i Taryn Williams 8-5 ddaeth yn gyntaf yn ei chystadleuaeth unigol cheerleading ym Mharis.

Gymnasteg dros Gymru – Llongyfarchiadau i Sioned Thomas 8-5 am ddod yn 1af yng Nghymru mewn cystadleuaeth gymnasteg yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

